

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWDYD YN CYFARFOD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DYDD MAWRTH, 11 EBRILL 2023, AM 14:30

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

JC Spanswick
HM Williams

N Farr
JPD Blundell

W R Goode

J Gebbie

Swyddogion:

Carys Lord	Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd - Pwyllgorau
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Nicola Echanis	Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

164. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cyngorydd H Williams fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 4, Polisi Pennu Ffioedd Cartref Gofal oherwydd bod ganddo berthynas agos mewn cartref gofal yn y Fwrdeistref Sirol. Gadawodd y Cyngorydd Williams y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hon.

Datganodd y Cyngorydd J Spanswick fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 6, Ymweliad Gwirio Gwelliannau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant 21 - 24 Tachwedd 2022 ac aeth allan o'r cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hon.

Datganodd y Cyngorydd JP Blundell fuddiant personol yn eitem 8, Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol gan ei fod yn aelod o'r Corff Llywodraethu a oedd hefyd yn penodi llywodraethwr.

165. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cabinet dyddiedig 22 Chwefror 2023 a 14 Mawrth 2023 fel cofnod gwir a chywir.

166. POLISI PENNU FFIOEDD CARTREF GOFAL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i roi Polisi Pennu Ffioedd Cartref Gofal o 2023/24 ar waith.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bwrpas y polisi, y cefndir a'r sefyllfa/cynnig presennol. Eglurodd eu bod wedi comisiynu'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus, yn dilyn proses gaffael deg, agored a thryloyw, i gefnogi'r awdurdod i weithio'n annibynnol gyda chartrefi gofal ac i ddatblygu'r polisi pennu ffioedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr IPC hefyd wedi'i gomisiynu'n genedlaethol gan Fwrdd y Comisiwn Cenedlaethol i gynorthwyo eu gwaith. Roedd Polisi Pennu Ffioedd Cartrefi

Gofal wedi'i gynnwys yn atodiad 1 yr adroddiad ac roedd yn nodi'r dull gweithredu, y cyd-destun a'r cefndir a sut y pennwyd y ffioedd ar gyfer cartrefi gofal o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch o nodi bod y Polisi wedi'i ddatblygu ar y cyd â darparwyr cartrefi gofal ac atgoffodd y Cabinet nad oedd unrhyw oblygiadau pellach o ran y gyllideb o ganlyniad i'r polisi hwn ac y byddent yn parhau i adolygu'r gost bob blwyddyn.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod yr adolygiad a oedd yn sail i hyn wedi'i gynnal gan sefydliad annibynnol ar ôl i ddadansoddiad manwl gael ei gynnal ar gost gofal o gostau gofal i'r sector annibynnol. Ychwanegodd eu bod yn agored iawn wrth rannu'r costau hyn. Roedd dyddiad yr adolygiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2027, a gofynnodd am gadarnhad y byddai pwyntiau sbarduno ar gyfer adolygiadau yn ystod y cyfnod hwnnw. Gofynnodd hefyd a oedd y gwaith a wnaed ar ôl troed rhanbarthol ac, o ran y canllawiau a ddarparwyd gan LIC, pe bai unrhyw newidiadau pellach, byddai'r polisi'n cael ei adolygu'n unol â hynny i adlewyrchu'r rhain.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y ffactorau a oedd yn llywio cost gofal o fewn y polisi wedi'u nodi yn Nhabl Un yr adroddiad ac y gallai fod amgylchiadau eithriadol mewn perthynas ag unrhyw un o'r ysgogwyr penodol hynny. Rhoddodd enghraifft o sbardun penodol, sef cyfraddau nwy, trydan a dŵr yn cyfrif am 5% o'r pwysoliad a allai gynyddu neu ostwng yn y dyfodol gan arwain at yr angen i adolygu'r polisi. Ychwanegodd y byddent yn gweithredu'n unol â hynny oherwydd y ddyletswydd statudol ynghylch yr angen i ddeall y gwir gostau. O ran y sefyllfa ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac roedd gan y 2 bartneriaeth ranbarthol statudol hyn ddiddordeb allweddol yn y sector cartrefi gofal. Cymeradwywyd adroddiad sefydlogrwydd y farchnad gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021, ynghyd â'r holl Gynghorau eraill a'r Bwrdd Iechyd, a oedd yn nodi cyflwr y farchnad cartrefi gofal a blaenoriaethau'r comisiwn y gallent weithio arnynt gyda'i gilydd. Roedd y canllawiau statudol yn mynd yn ôl i 2010 ac yn nodi'r hyn a oedd ei angen i ddeall costau gofal. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, wrth wneud yr argymhelliad hwn, wedi penderfynu mabwysiadu arfer da ynglŷn â sut i osod polisi ffioedd cartref gofal, ond efallai y bydd yn fwy gorfodol yn y dyfodol.

Nododd yr Arweinydd fod un o'r gofynion yn ymwneud â thalu o leiaf y cyflog byw i staff gofal cymdeithasol. Roedd cyllid ychwanegol ar gael a Phen-y-bont ar Ogwr oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf i fabwysiadu'r dull hwnnw.

PENDERFYNWYD : Bod y Cabinet yn cymeradwyo i roi'r Polisi Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal ar waith, ac y bydd yn dod i rym o ddiwedd mis Ebrill 2023.

167. POLISI CWYNIION Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Polisi Cwynion diwygiedig y Gwasanaethau Cymdeithasol (Atodiad 1 yr adroddiad). Roedd y polisi wedi'i ddatblygu yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol ynghylch cwynion gwasanaethau cymdeithasol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ei fod yn egluro'r berthynas rhwng Polisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gweithdrefnau a oedd yn sail i'r polisi a phrosesau a gweithdrefnau eraill a weithredir gan y Cyngor. Ychwanegodd fod y Cabinet yn derbyn adroddiad Cwynion

Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol a oedd yn nodi perfformiad ynghylch cwynion a gwersi a ddysgwyd o faterion a sylwadau a godwyd.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd fod yn rhaid iddynt, fel rhan o arolygiad AGC, sicrhau bod yr holl bolisiau'n gyfredol ac yn cael eu rheoli'n briodol ac felly byddai'r polisiau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn rheolaidd wrth symud ymlaen.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Adfywio pam fod yna bolisi ar wahân ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a pham nad oedd y maes hwn yn dod o dan y Polisi Corfforaethol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael Polisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol penodol oherwydd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol cysylltiedig, fel y nodir yn fanwl yn yr adroddiad eglurhaol. Rhoddodd sicrwydd i'r Cabinet fod y ddau bolisi yn ategu ei gilydd o ran y ffordd yr oeddent yn gweithio, er mwyn sicrhau bod cynnwys neu gŵyn yn cael eu rheoli o dan y broses gywir.

Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd na allent wneud dim gyda chwyn yn y gwasanaethau cymdeithasol pe bai achos cyfreithiol yn mynd rhagddo. Dylent ei gwneud yn glir, fel Aelodau, eu bod yn dilyn canllawiau ac yn cadw at gyngor cyfreithiol a chyngor yr Ombwdsmon wrth wneud hyn.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol sut roedd y polisi hwn yn rhyngweithio â'r Polisi Blinderus. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod hyn yn helpu i amlygu'r ffaith nad oedd y Cyngor hwn yn goddef unrhyw gam-drin o amgylch unrhyw aelod o staff. Roedd gan fframwaith polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bolisiau a oedd yn ategu ei gilydd ac yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'i gilydd. Roedd y Swyddog Cwynion yn rôl statudol a byddai'n fedrus iawn wrth weithio gydag unigolion i gymryd peth amser i ymchwilio i gŵyn yn gywir ac yn briodol. O bryd i'w gilydd byddai materion a fyddai'n flinderus ac a fyddai'n gyfystyr â cham-drin aelodau o staff y byddai'n rhaid eu rheoli drwy'r Polisi Blinderus.

Pwysleisiodd yr Arweinydd na fyddai'r awdurdod yn goddef cam-drin, ymosodiad na thrais tuag at staff ac na fyddai'n oedi cyn cysylltu â Heddlu De Cymru a gweithio gyda nhw pe bai angen, i amddiffyn staff.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol diwygiedig a oedd ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad.

168. **YMWELIAD GWIRIO GWELLIANNAU AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) Â GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL PLANT 21 - 24 TACHWEDD 2022**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i'r Cabinet, a oedd yn seiliedig ar eu hymweliad gwirio gwelliannau â Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod mis Tachwedd 2022 ac argymhellodd fod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad a'r sylwadau ar y Cynllun Gweithredu cysylltiedig wedi'i ddiweddarau.

Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gefndir yr ymweliad ac eglurodd fod y gwaith o wirio gwelliannau'n canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant yn ystod yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Mai 2022. Eglurodd fod y gwaith o wirio gwelliannau ar y cyfan yn dangos cynnydd cadarnhaol o ran y blaenoriaethau hynny a osodwyd, sef bod y mwyafrif o'r meysydd a nodwyd naill ai'n dangos gwelliant sylweddol neu rywfaent o

welliant a nifer o feysydd yr oedd angen gweithredu pellach arnynt, o ganlyniad i hynny. Dywedodd fod angen gwelliannau o fewn yr awdurdod o hyd, o ran gofal cymdeithasol plant, o ystyried mai cynllun gwella tair blynedd oedd y cynllun a gymeradwywyd. Nododd AGC arferion gwell o ran clywed, a gweithredu ar lais y plentyn, o fewn arfer ac o fewn ffeiliau achos a hefyd yn parhau i nodi bod y gweithlu'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda o ran eu gwaith. Roeddent hefyd yn cydnabod cryfder sylweddol o ran gweithio mewn partneriaeth a chymorth corfforaethol i ofal cymdeithasol plant a bod hyn yn gofyn am ddull Cyngor cyfan.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ddau faes penodol o bryder. Un oedd breuder parhaus y gweithlu gofal cymdeithasol lle'r oedd ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud ac yn parhau i gael eu gwneud i gadw a recriwtio gweithlu gofal cymdeithasol plant o safon uchel sy'n cael ei gefnogi'n dda ac sy'n llawn cymhelliant. Yr ail faes yr oedd angen ei wella ar frys oedd cam-fanteisio troseddol ac arfer yn y maes hwn. Byddai adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar y gwaith hwn. Ychwanegodd y byddai archwiliad o gynnydd yn erbyn y cynllun strategol 3 blynedd yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn a haf 2023 ac y byddai cynllun wedi'i adnewyddu'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2023.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r staff gan na fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni hyn heb ymroddiad y staff, gan gynnwys staff asiantaeth.

Ategodd yr Arweinydd y sylwadau hyn a diolchodd i'r staff am weithio'n hynod o galed. Roedd y llwyth achosion yn fawr, ac roedd staff wedi ymateb i'r her. Nododd AGC feysydd i'w gwella ond hefyd nifer o gryfderau ym mhob maes. Diolchodd hefyd i gydweithwyr ar draws y Siambr gan gynnwys Arweinwyr Grŵp a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu. Gofynnodd am un maes penodol a oedd wedi'i nodi ar gyfer welliant, sef y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Tîm Lles Emosiynol Ieuencid. Nododd fod rhai gwelliannau wedi'u gwneud a bod y rhestr aros wedi lleihau'n sylweddol. Nid cyfrifoldeb yr awdurdod yn unig oedd y cam hwn a gofynnodd a oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau cynnydd a gafwyd.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y dylai'r cam hwnnw fod wedi'i gyfeirio ato'n benodol yn y cynllun gweithredu o ran iechyd a lles emosiynol. Roedd amrywiaeth o gamau gweithredu ar y gweill ac roedd y Bwrdd Iechyd wedi cael rhywfaint o adnoddau a buddsoddiad sylweddol i gefnogi pob ysgol ar draws ôl troed Cwm Taf Morgannwg i roi Fframwaith Nyth ar waith, sef dull ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol. Cadwyd llygad barcud iawn o ran unrhyw restr aros am y gwasanaethau hynny. Roedd yn argymhelliad i'r awdurdod ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd ynghylch y gwaith hwnnw gyda CAMHS, gan wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad prydlon pan oedd arnynt ei angen.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Adfywio ei fod yn galonogol i weld bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud a gofynnodd a oedd unrhyw argymhellion wedi'u gwneud gan y Pwyllgor Craffu ac os felly, a oedd yr argymhellion hynny wedi'u gweithredu. Gofynnodd hefyd pa welliannau a oedd wedi'u gwneud o ran arolygiaeth rheolwyr fel y nodwyd yn yr adroddiad ac a allai'r Cyfarwyddwr ddangos tystiolaeth o sut yr oedd staff yn cael eu cefnogi.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mai dim ond yn ddiweddar y derbyniwyd yr argymhellion gan y Pwyllgor Craffu ac y byddent yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn brydlon. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn ymwneud â'r strategaeth ariannol ar gyfer gofal cymdeithasol plant gan eu bod wedi bod mewn sefyllfa o orwariant drwy gydol y flwyddyn. Roedd yn amlwg bod angen iddynt weithio'n agos iawn fel un Cyngor i wneud yn siŵr bod strategaeth ariannol a oedd yn cefnogi'r gwasanaeth i gyflawni dyletswyddau statudol o fewn y gyllideb. Ar hyn o bryd roedd yn

cael trafferth gwneud hynny oherwydd y llwyth achosion sydd ganddynt. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles weddill yr argymhellion a rhoddodd ddiweddariad ar bob un. O ran rheoli dros y safle, roedd y Cabinet wedi cymeradwyo polisi goruchwylio newydd ar draws gwasanaethau cymdeithasol a lles, ac roedd hyn yn hanfodol fel y gwelwyd gan AGC. O ran cynorthwyo staff, roedd y Swyddog Cymorth Gwaith Cymdeithasol wedi dechrau o 1 Ebrill a byddai'n allweddol i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i wneud eu gwaith cymdeithasol. Roedd cynnig lles helaeth gan gynnwys cymorth wedi'i lywio gan drawma, hefyd ar gael i staff.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Adnoddau at y cynllun gweithredu a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch system graddio BRAG. Gofynnodd pa mor bell oedd y pwynt yn y coch ac a oedd cynnydd yn cael ei wneud i droi'r coch yn wyrdd. Gofynnodd pryd y byddai'r adroddiad cynnydd nesaf yn cael ei gyflwyno ac a oedd angen unrhyw beth gan y Cabinet i'w helpu i gyflawni ei nodau.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai'n sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn cynnwys allwedd yn y dyfodol. Eglurodd fod glas yn golygu wedi'i gwblhau, gwyrdd yn golygu ei fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlenni, roedd melyn yn waith ar y gweill lle'r oedd pryderon ynghylch bodloni amserlenni a choch yn nodi nad oeddent ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. Roedd yr un dangosydd a oedd yn goch yn ymwneud â'r gweithlu. Er gwaethaf yr heriau, roedd y gweithlu'n parhau i fod yn gadarnhaol ond roeddent yn dibynnu ar staff asiantaeth o hyd a gallai hyn effeithio ar ansawdd y gwaith wrth geisio sefydlu model newydd o ymarfer gwaith cymdeithasol. Roedd croeso mawr i'r recriwtiaid rhyngwladol a byddent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol dros amser. Cafwyd peth llwyddiant o ran recriwtio gweithwyr sydd newydd gymhwyso, ac fe wnaethant barhau i recriwtio i rolau rheoli. Roeddent yn recriwtio mwy i'r cynllun Datblygu Ein Hunain ac roedd hwnnw'n ateb tymor canolig, hwy i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Fel Cyngor, byddai cymorth corfforaethol parhaus a dull Cyngor cyfan yn hanfodol i gynaliadwyedd a symud i "sefyllfa dda".

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at ddigwyddiad iechyd meddwl yr oedd wedi'i fynychu'n ddiweddar, a darllenodd gerdd a ysgrifennwyd gan unigolyn ifanc am CAMHS. I glywed y gerdd, dilynwch y ddolen ganlynol:

PENDERFYNWYD :

Ystyriodd y Cabinet adroddiad AGC ar wirio gwelliannau Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant Pen-y-bont ar Ogwr a gwnaeth sylwadau ar y Cynllun Gweithredu cysylltiedig wedi'i ddiweddarau. Nododd y Cabinet ddatblygiad cynllun cynaliadwyedd i fodloni anghenion plant a theluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fwyaf effeithiol fel y nodir ym mharagraff 4.15 yr adroddiad.

169. POLISI MEDDYGINIAETH

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Meddyginiaeth fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Eglurodd ei fod yn bolisi pwysig o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoledig a bod y polisi'n cwmpasu'r holl wasanaethau gofal rheoledig a ddarperir fel Cyngor megis cartrefi gofal preswyl i blant ac oedolion. Roedd y polisi wedi bod yn destun ymgysylltu sylweddol â chydweithwyr yn y GIG a fferyllwyr a oedd yn amlwg yn arbenigwyr ym maes meddyginiaeth.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod hwn yn waith lle'r oedd mentro ynghlwm ag ef a gyflawnwyd gan yr aelodau staff ar y cyflogau isaf a'i fod yn faes o bryder. Byddai hyn yn gwarchod eu lles a'u diogelwch a'r Cyngor. Ychwanegodd y byddai'r holl gostau'n cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

Roedd yr Arweinydd yn hapus i weld rhan yr arbenigwyr yn y maes hwn wrth ddatblygu a rhoi'r polisi ar waith.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Adfywio gyda phwy yr ymgynghorwyd wrth ddatblygu'r polisi. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod datblygiad y polisi wedi'i arwain gan Dîm Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol y fferyllfa, y gweithlu, Undebau Llafur a rheolwyr cofrestredig.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gwmpas y polisi a'r gwasanaethau yr oedd ganddynt gyfrifoldeb amdanynt nad oeddent yn cael eu rheoleiddio megis ysgolion arbennig. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, o ran ysgolion arbennig, y byddai ganddynt eu polisïau eu hunain o ran meddyginiaeth.

PENDERFYNWYD : Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Meddyginiaeth i'w roi ar waith ar draws Gwasanaethau Rheoledig o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

170. **PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i benodi llywodraethwyr awdurdod lleol i'r cyrff llywodraethu ysgolion a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. Eglurodd, ar gyfer y chwe lle gwag presennol ar gyfer llywodraethwyr awdurdod lleol yn y chwe ysgol, fod pob ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cymeradwy ar gyfer penodi llywodraethwr awdurdod lleol ac nad oedd cystadleuaeth am y swyddi gwag hyn.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i'r ymgeiswyr a oedd wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer y dasg bwysig hon ac anogodd yr Aelodau a'r cyhoedd i wneud cais am un o'r nifer o leoedd gwag.

Anogodd y Dirprwy Arweinydd gydweithwyr i ddod yn llywodraethwyr ysgol gan ei bod yn rôl werthfawr iawn.

PENDERFYNWYD : Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau y manylwyd arnynt ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

171. **POLISI GOSTYNGIAD DEWISOL TRETH Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a Swyddog Adran 151 adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Polisi Gostyngiad Dewisol Treth y Cyngor, yn unol â'r pwerau a nodir yn Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i nodir gan Adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012). Hefyd gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo newid i Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor er mwyn gallu ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac yn brydlon.

Eglurodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod gan yr awdurdod bilio pwerau dewisol i leihau rhwymedigaeth treth y Cyngor lle na ellid cymhwyso gostyngiadau ac eithriadau cenedlaethol. Nid oedd gan y Cyngor bolisi y cytunwyd arno ar hyn o bryd ac amcan y polisi hwn oedd cynnig cymorth ariannol i drethdalwyr y Cyngor a oedd yn profi caledi ariannol eithriadol.

Amlinellodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y polisi arfaethedig, y tri chategori cymhwyster a sut y penderfynir ar y ceisiadau a'r broses apelio.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid am yr adroddiad. Cadarnhaodd mai mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y gwneir defnydd o'r polisi ac y byddai'n fodd i gynorthwyo'r ymgeisydd am gyfnod byr.

PENDERFYNWYD : Bod y Cabinet yn:

- a) cymeradwyo'r Polisi Rhyddhad Dewisol Treth y Cyngor arfaethedig yn Atodiad A;
- b) cymeradwyo newid i'r Cynllun Dirprwy Swyddogaethau, fel y nodir ym mharagraff 4.3.

172. YMGYNGHORIAD AR GANOLFANNAU AILGYLCHU CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y posibilrwydd o gau tair Canolfan Ailgylchu Gymunedol (CRC) am un diwrnod yr wythnos ac i'r Cabinet nodi y byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd i'r Cabinet maes o law. Eglurodd fod cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad yn cael eu paratoi ac y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ym mis Ebrill ac yn para am 12 wythnos. Byddai costau'r ymgynghoriad yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cymunedau, fel rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i 2026-27, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2023, fod Cynnig i Leihau'r Gyllideb o £50,000 wedi'i gynnwys mewn perthynas â chyllideb y Gwasanaethau Gwastraff. Er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, byddai angen cau pob Canolfan Ailgylchu Gymunedol am un diwrnod gwaith yr wythnos. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn llywio trafodaethau gyda'r darparwr presennol o ran y diwrnodau mwyaf priodol. Ychwanegodd y byddai gweithredu yn ddiweddarach yn y flwyddyn felly byddai'n anodd cyflawni'r arbediad o £50,000 yn y flwyddyn gyntaf.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am fanylion ynghylch lle roedd y tri safle a'r gost wrth beidio ag agor Canolfan Ailgylchu Gymunedol y Pîl oherwydd yr oedi gyda'r drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol fod y canolfannau ailgylchu gymunedol ym Mrynmenyn, Maesteg a Llandudwg . Roedd y sefyllfa gyda Chanolfan Ailgylchu Gymunedol y Pîl yn rhwystredig. Roeddent yn mynd trwy broses hirwyntog gyda'r contractwr presennol a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gael y drwydded a oedd yn angenrheidiol i allu gweithredu ar y safle hwnnw. Roedd mân bethau technegol wedi ei atal rhag agor hyd yma, ac roedd y broses yn parhau. Nid oedd ganddo fanylion y costau wrth law ond byddai'n darparu manylion yn dilyn y cyfarfod. Yr effaith fwyaf oedd eu bod yn dal i orfod talu am rentu safle Llandudwg oherwydd nad oedd yn eiddo i'r Cyngor.

Cytunodd yr Arweinydd ei bod yn siomedig eu bod yn dal i aros am y drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac y byddai'n ysgrifennu eto at Gyfoeth Naturiol Cymru oherwydd ar wahân i'r drwydded, roedd y safle'n barod i'w agor. O ran yr ymgynghoriad, roedd yn bwysig i'r cyhoedd wybod na fyddai penwythnosau'n cael eu dewis oherwydd pa mor brysur yw'r Canolfannau Ailgylchu Gymunedol ar benwythnos. Y farn bresennol oedd y byddai Canolfannau Ailgylchu Gymunedol yn cau ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos, felly saith niwrnod yr wythnos, byddai o leiaf dau o'r Canolfannau Ailgylchu Gymunedol ar agor ac am y rhan fwyaf o'r dyddiau, byddai'r tri ar agor.

PENDERFYNWYD :

Cymeradwyodd y Cabinet ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gau pob Canolfan Ailgylchu Gymunedol un diwrnod yr wythnos.

Nododd y Cabinet y byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd i'r Cabinet maes o law.

173. CYLLID DYFODOL PARC RHANBARTHOL Y CYMOEDD

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Barc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP) ac yn gofyn am gymeradwyaeth, yn dilyn cais gan fwrdd Parc Rhanbarthol y Cymoedd, bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau yn ei rôl fel yr un sy'n cynnal Parc Rhanbarthol y Cymoedd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i dderbyn cynnig grant o £265,000 gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer cyllid Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar gyfer y 9 mis sy'n weddill o flwyddyn ariannol 2023/24 yn dilyn diwedd cyllid cyfredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ym mis Mehefin 2023.

Amlinellodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol weledigaeth a phwrpas Parc Rhanbarthol y Cymoedd a'r camau a oedd wedi arwain at Ben-y-bont ar Ogwr yn gweithredu fel yr awdurdod cynnal ar gyfer tîm cyflawni Parc Rhanbarthol y Cymoedd a sut mae hynny wedi'i ariannu'n bennaf gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gronfa Gymdeithasol i fod i ddod i ben ym mis Mehefin. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Bwrdd ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd a gyda'r Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a chynigiwyd grant o £265,000. Byddai hyn yn talu'r costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol a byddai'n darparu sail ar gyfer cynllunio ac edrych ar ddull mwy hirdymor, fel y gobeithir y gallai'r Parc Rhanbarthol y Cymoedd neu gyfwerth ddod â budd i'r meysydd hyn yn y tymor hir a sicrhau parhad ar unwaith.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Adfywio ei bod yn braf bod y cynnig grant ar y gweill i barhau â'r gwaith hwn. Gofynnodd beth fyddai'n digwydd ar ôl y flwyddyn ariannol hon. Atebodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol, fel yn yr adroddiad, y byddai gwaith yn cael ei wneud i geisio cyllid ar gyfer gweinyddu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn y dyfodol er mwyn sicrhau dyfodol Parc Rhanbarthol y Cymoedd neu rywbeth cyfwerth.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Cymunedau at bwynt 4.3 o'r adroddiad a gofynnodd am gadarnhad y dylai'r pwynt bwled olaf, "Datblygu cynllun busnes dichonadwy i sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd erbyn 31 Mawrth 2029" ddarllen hyd at 31 Mawrth 2029. Eglurodd Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol mai'r amcan oedd cael menter hunangynhaliol erbyn hynny.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a oedd staff ar gael i redeg hyn? Atebodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol fod yna staff, gyda rhai ohonynt ar secondiad o LIC felly ei bod yn achos o barhau â'r trefniadau sydd ar waith.

PENDERFYNWYD : Bod y Cabinet yn:

1. Nodi'r cynnydd hyd yma wrth ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.
2. Cymeradwyo'r cais gan Fwrdd Parc Rhanbarthol y Cymoedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr barhau yn ei rôl fel gwesteiwr Parc Rhanbarthol y Cymoedd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24.

CABINET - DYDD MAWRTH, 11 EBRILL 2023

3. Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, i gymeradwyo telerau terfynol y cynnig grant, derbyn y cynnig o gyllid gan Lywodraeth Cymru ac ymrwmo i unrhyw gytundebau cyllid a chyfreithiol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rôl fel gwesteivr tîm cyflawni Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

174. **EITEMAU BRYD**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00